**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd**
**Dydd Mawrth 21 Ionawr 2020, 3-5pm**
**Canolfan Gofal Dydd Grand Avenue**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn Bresennol</u>** | |
| | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| **(Cadeirydd)** | Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP |
| Charles Janczewski **(Is-** | CaF) |
| **gadeirydd)** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru |
| Mark Brace | (HDC) |
| John Hogg | Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sheila Hendrickson-Brown | (CNC) |
| Jo Salway | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Keith Meredith | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Hannah Williams | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Ymddiheuriadau:** | (GPC) |
| Paul Orders | |
| Len Richards | |
| Huw Jakeway | Prif Weithredwr, CC |
| Gareth O'Shea | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Stephen Jones | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| **Hefyd yn bresennol:** | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Heléna Herklots | |
| David McKinney | |
| Gareth Reese | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (CPHC) |
| Nicola Pitman | Arweinydd Heneiddio'n Dda, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Y Cyng. Elsmore | Swyddog Cymorth (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) |
| Claire Marchant | Prif Reolwr Llyfrgelloedd a Strategaeth, Cyngor Caerdydd |
| Isabell Bull | Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, CC |
| Ditectif Brif Arolygydd Wendy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, CC |
| Gunney | Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, CC |
| Edward Hunt | Heddlu De Cymru |
| Dr Karen Pardy | Cyfarwyddwr Rhaglen Qilddatblygu, BIP CaF |
| Carolyne Palmer | Cyfarwyddwr Cymunedol, De Orllewin Caerdydd, BIP CaF |
| Amanda Lewis | Rheolwr Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, CC |
| Anne Wei | Dirprwy Bennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, GPC |
| Gareth Newell | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF |

| | |
|---|---|
| Nathan Swain<br>Clive Bailey (Clerc) | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC<br>Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC<br>Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 21 Mai 2019**<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.<br><br>Ni chodwyd unrhyw gamau gweithredu pellach. | |
| 3. | **Cymunedau o Gyfleoedd i'r Henoed**<br><br>Croesawodd y Cynghorydd Elsmore Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac eglurodd pam mae canolfan gofal dydd Grand Avenue yn lleoliad delfrydol ar gyfer trafod y cyfle i gael cydnabyddiaeth i gymunedau sy'n dda i bobl hŷn drwy Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).<br><br>Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei huchelgeisiau ar gyfer Cymmuniadau sy'n Dda i Bobl Hŷn yng Nghaerdydd ac yng Nghymru.<br><br>Rhoddodd David McKinney (Arweinydd Heneiddio'n Dda - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) a Nicola Pitman (Prif Reolwr Llyfrgelloedd a Strategaeth, Cyngor Caerdydd) drosolwg ar sut dylai Cymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn fod a beth byddai ei angen er mayn i Gaerdydd ymuno â rhwydwaith byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:** | |
| | • Strategaeth ynghylch Cymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn a'r gofynion ar gyfer ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y BGC. | Ysgrifenyddiaeth |
| | • Bydd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd , 'Ail-ddychmygu Heneiddio' yn canolbwyntio ar y maes gwaith hwn a chaiff ei ystyried yng nghyfarfod y BGC yn y dyfodol. | Fiona Kinghorn/Yr Ysgrifenyddiaeth |
| | • Bydd Hannah Williams yn cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i drafod y system cyfiawnder troseddol a phobl hŷn. | Hannah Williams |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 4. | **Taith o Amgylch Canolfan Ddydd Grand Avenue**<br><br>Ni chafwyd trafodaeth yn dilyn y daith. | |
| 5. | **YAC2**<br><br>Arweiniodd Abi Harris (Cyfarwyddwr Cynllunio) ac Edward Hunt (Cyfarwyddwr y Rhaglen Ailddatblygu, CIP CaF) drafodaeth ar ailddatblygu safle Ysbyty Athrofaol Cymru a'i ryngweithiad â strategaethau a chynlluniau iechyd allweddol eraill e.e. Llunio ein Lles yn y Dyfodol, Strategaeth Gwasanaethau Trydyddol a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.<br><br>Caiff achos busnes ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru eleni. | |
| 6. | **Diweddariad ar Wella Canlyniadau i'r Bwrdd Oedolion**<br><br>Rhoddodd Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran ailfodelu gwasanaethau fel eu bod yn seiliedig ar ardal ac wedi'u seilio ar gryfder a datblygu un system amlddisgyblaethol.<br><br>Cyflwynodd Mark Brace (Comisiynydd Heddlu a Throseddau Cynorthwyol) y wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl a sefydlwyd i edrych ar ddatrysiadau amlasiantaeth i bobl sy'n syrthio drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd. Disgwylir i adroddiad ar fapio asedau gael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.<br><br>Rhoddodd Dr Karen Pardy (Cyfarwyddwr Cymunedol, Clwstwr Meddygon Teulu De Orllewin Caerdydd) drosolwg ar weithio integredig yng nghlwstwr Caerau/Trelái/Treganna/ Glan yr Afon rhwng Meddygon Teulu, gofal cymdeithasol a'r 3ydd Sector i roi cymorth anfeddygol/holistaidd i breswylwyr.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar oblygiadau'r Gronfa Trawsnewid a oedd yn dod i ben 31 Mawrth 2020 ar y Prosiect Clwstwr Carlam ac Ewch â Fi Adre. | |
| 7. | **Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>**7.1 Cyllid ar gyfer Atal a'r Blynyddoedd Cynnar (Caerdydd a'r Fro)**<br><br>Rhoddodd Fiona Kinghorn ddadansoddiad o'r arian a ddyrannwyd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar gyfer | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | 2019/20. Mae'r Bwrdd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun ariannu.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Fiona Kinghorn fydd yn cysylltu â Sarah McGill i drafod sut i dargedu cyllid er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a Chynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda. | Fiona Kinghorn/<br>Sarah McGill |
| | **7.2 Symud Mwy Bwyta'n Dda**<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cymeradwywyd Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda i'w gyhoeddi.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Caiff y dull cyflawni a gynigir ar gyfer Symud Mwy, Bwyta'n Dda ei drafod mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol. | Fiona Kinghorn/<br>Ysgrifenyddiaeth |
| | **7.3 Diweddariad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**<br><br>Rhoddodd Gareth Newell ddiweddariad i'r Bwrdd:<br>• Caiff cynnig i adleoli gwaith camerâu cylch cyfyng Neuadd y Sir i Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc a'r dyheadau tymor canolig/hir ar gyfer monitro camerâu cylch cyfyng yng nghanol y ddinas eu datblygu a'u cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Ysgrifenyddiaeth |
| | • Ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Arwain ym mis Chwefror 2020, cafodd y cynnig cysoni ADDau ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant ei ystyried yng nghyfarfod y BGC ym mis Ebrill er mwyn cytuno arno a'i gymeradwyo. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **7.4 Bwrdd Twf Cadarn – Cylch Gorchwyl yn newid**<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Ailenwir y Bwrdd Twf Cadarn i gael ei ailenwi'n Fwrdd Partneriaeth Argyfwng yr Hinsawdd gyda chyfranogiad a mewnbwn rhanddeiliaid allanol yn ôl yr angen | Ysgrifenyddiaeth |
| | • Argyfwng hinsawdd fydd thema'r BGC ym mis Ebrill. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **7.5 Trefniadau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd BGC y Fro i ailagor y drafodaeth ynglŷn â sefydlu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y BGC ar y cyd. Bydd cynrychiolwyr y Bwrdd | Cadeirydd/Ysgrifenyddiaeth |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cynnwys ar yr aelodaeth.<br><br>**7.6. Adnewyddu Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd**<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod Gweinyddiaeth y Cyngor wrthi'n adnewyddu Uchelgais Prifddinas yn y tymor canolig i ddiweddaru ei nodau a'i uchelgeisiau gan adlewyrchu materion fel Brexit a Argyfwng yr Hinsawdd.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Gwahodd y BGC i ddigwyddiad lansio'r Adnewyddiad Uchelgais Prifddinas a drefnwyd ar gyfer 6ed Chwefror 2020.<br>• Y BGC i adolygu ei ymrwymiadau ar gyfer ei Gynllun Lles yng ngoleuni Adnewyddu Uchelgais Prifddinas. | Pawb/Ysgrifenyddiaeth<br><br>Pawb/Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br>• Cyfarfod pennu'r agenda 25 Chwefror 2020<br>• BGC Caerdydd 22 Ebrill 2020 | |